PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 379 | MAI 2015










# Enillwyr Steddfod 2015



Nana Tagos, enillydd y llefaru Bl 3 a 4 nos Wener



Arwen Exley enillodd ar lefaru Bl 5-6 a Sion James yr unawd Bl 5-6 nos Wener



Enillwyr pnawn Sadwrn – Ioan Mabbutt, Aberystwyth enillodd y ddwy gystadleuaeth Bl3-4; Betsan Fychan Downes, Penrhyn-coch ddaeth yn ail ar y ddwy gystadleuaeth a Gethin Jones Davies, Llanfihangel-y-creuddyn ddaeth yn drydydd ar y llefaru.

Lluniau: Arvid Parry-Jones



Mari Gibson enillodd ar yr unawd Bl 1-2 ac ail yn y llefaru, gyda Molly Robinson enillodd y llefaru.



Meleri Pryse, Aberystwyth, enillydd Tlws yr Ifanc (Cerddoriaeth)



Enillwyr pnawn Sadwrn – dwy chwaer o Rydyfelin - Cadi Williams, enillydd Unawd Blwyddyn 5 a 6 a Beca Williams, ail ar yr unawd uwchradd a'r unawd cerdd dant

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin – Deunydd i law: Mehefin 5. Dyddiad cyhoeddi: Mehefin17**

**MAI 22** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**MAI 22** Nos Wener Noson goffi Pwyllgor Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau am 7.00

**MAI 22** Nos Wener Catrin Finch yn lansio ei CD newydd Tides yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MAI 23** Nos Sadwrn Rhys Taylor (Clarinet) a Lowri Guy (Piano) yn rhoi rhaglen sy'n cynnwys gweithiau gan Debussy a Finzi yn y Tabernacl, Machynlleth am 7.30. Mynediad: £10; O dan 16 £5 Dathlu 30 mlynedd o'r Tabernacl.

**MAI 24** Dydd Sul Cystadleuaeth Golff Agored Penrhyn-coch Cyfarfod yng Nghapel Bangor am 2.30. Barbeciw yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-coch o 5 ymlaen. Adloniant byw am 7; gwobrau ariannol a raffl. Rhoddir tariannau gan Gavin Hughes-Evans a'r teulu er cof am Cyril Keys.

**MAI 25-30** Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r cylch

**MAI 30** Dydd Sadwrn Barbeciw haf ar dir Neuadd Eglwys Capel Bangor

**MEHEFIN 1** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl hanner tymor

**MEHEFIN 3** Nos Fercher Cyngerdd gan Wilber o'r Gaiman, Patagonia ym Morlan, Aberystwyth am 7.30. Mynediad: £5. Pris gostyngol i blant ysgol: £3 Tocynnau ar gael o Morlan neu Ceris Gruffudd (01970) 828 017 ceris.gruffudd@gmail.com

**MEHEFIN 5** Nos Wener Y Gorllewin gwyllt: hwyl a sbri i'r holl blwyfi ym Mhenrhyn-coch am 6.30

**MEHEFIN 13** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Gogledd Ceredigion

**MEHEFIN 17** Nos Fercher Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**MEHEFIN 17-18** Dyddiau Mercher a Iau Arad Goch yn cyflwyno Lleuad yn olau yng Nghanolfan y Celfyddydau am 6.00 (Mercher) a 10 ac 1 (Iau)

**MEHEFIN 19** Nos Wener Cyngerdd Dathlu 10 mlynedd Côr Ger-y-lli ym Methel, Aberystwyth am 7.00 Tocynnau £7 Oedolion £3 Plant. Bydd holl elw y noson yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

**MEHEFIN 20** Dydd Sadwrn Taith flynyddol Cymdeithas y Penrhyn i Dde Sir Benfro dan arweiniad Dyfed Ellis-Gruffydd. Enwau i Ceris Gruffudd

**MEHEFIN 26** Nos Wener Caws, Gwin & Chân Eglwys St. Pedr Elerch gyda Pharti Camddwr, Côr Tenovus Aberystwyth & artistiaid lleol am 7.00. Mynediad £7. Llywydd: Mr Alun Davies, MRVS, San Clêr. (Llety Ifan Hen gynt).

**MEHEFIN 27** Dydd Sadwrn Parti yn y Parc ym Mhenrhyn-coch.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer
Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY

## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## Telerau hysbysebu

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2015**

**£25** (Rhif 220) Glyn Saunders Jones, Fferm y Fagwyr, Llandre
**£15** (Rhif 241) Owen Watkin, 19 Maeshenllan, Llandre
**£10** (Rhif 162) David James, Dolhuan, Llandre

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ebrill 22**

## RHODD

**Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.**

**Mair England, Llandre £5**

### Diolch

Hoffwn ddiolch o galon i chi oll am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd drwy gardiau, ymweliadau, blodau a galwadau ffôn ar yr adeg trist yma o golli Dai mor frawychus o sydyn – gŵr, tad, tad-cu a ffrind annwyl. Mae eich geiriau caredig yn wir cael eu gwerthfawrogi. Yr un modd diolch am eich consyrn ynghylch Rhian, mae hi yn gwella yn araf.

**Mair, Gareth, Rhian a Siôn England**

**Bws o Aberystwyth i Les Misérables!**
Taith siopa a sioe gerdd perfformiad fersiwn ysgolion Les Miserables (fersiwn ysgolion) yng Nghanolfan Mileniwm Cymru Caerdydd. Hydref 29ain Tocyn a bws £38 i archebu lle cysylltwch ag anweneleri@urdd.org 01239 652 150

**Bws i Eisteddfod Llangollen**
Trefnir bws i oedolion i Langollen y diwrnod y bydd Cor unedig Ysgolion Penllwyn a Penrhyn-coch yn cystadlu – dydd Mawrth Gorffennaf 7fed. Gadael am 9 y bore – dychwelyd erbyn 8 y nos. Pris bws: £8. Pris tocyn mynediad £5 i'w dalu yn y fynedfa. Nifer cyfyngedig o lefydd fydd ar y bws. admin@penrhyncoch.ceredigion.sch.uk 01970 828566

## 30 MLYNEDD YN ÔL



**PENCAMPWYR CYMRU**
Bechgyn Ysgol Penrhyn-coch gyda'r cwpanau a'r medalau y maent wedi eu hennill yn ystod y tymor. Gwelir hefyd y darian a gyflwynwyd iddynt ar ddod yn bencampwyr Cymru. Llun: Arvid Parry-Jones (O'r Tincer Mai 1985)

***NOSON LAWEN* FAWR**
**I DDATHLU PEN BLWYDD UNDEB YN CHWEDEG OED**
***Diwydiant a diwylliant yn un***

**I ddathlu pen blwydd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) yn drigain oed mae aelodau'r Undeb yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin yn cydweithio i drefnu clamp o *Noson Lawen* yn Llanbedr Pont Steffan.**

Mae'r Noson sy'n cael ei chynnal yn Neuadd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar nos Sadwrn Mai 23 am 7.30 ac yn rhoi llwyfan i rai o dalentau amlycaf y ddwy sir. Mae raffl sy'n gysylltiedig â'r Noson yn cynnig gwobrau arbennig iawn sy'n cynnwys tocynnau teulu i Sioe Fawr Llanelwedd ac i sioeau Sir Benfro ac Aberystwyth.

Bydd elw'r noson yn cael ei gyflwyno i hospis Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith - elusenau dewisiedig Llywydd yr Undeb Emyr Jones.

Mae Elin Jones Aelod Cynulliad Ceredigion a Chyn-Weinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Llywydd y *Noson Lawen*. Nodwyd hen ewythr Elin, y diweddar J B Evans fel prif symbylydd yr Undeb a chredai llawer na fyddai'r Undeb wedi gweld golau dydd heb ei gyfraniad ef 60 mlynedd yn ôl.

Brian Walters, Caerfyrddin, un o Is-Lywyddion ac un o wynebau mwyaf cyfarwydd yr Undeb, sydd yn cyflwyno'r noson ac mae'r artistiaid yn adlewyrchiad o'r talentau gorau sydd wedi codi o ddaear y ddwy sir ac yn cynnwys – Ifan Gruffydd, Tregaron; Eirlys Myfanwy, Llanelli; Clive Edwards, Hendygwyn; Rhys a Fflur Griffiths, Bethania; CFFI Llangadog a Chôr Meibion y Mynydd, Ponterwyd dan arweiniad Caryl Jones.

Atyniad arall ar y rhaglen fydd lleisiau unigryw Aled ac Eleri Edwards, Cil-y-cwm. Mae'r ddau yn enillwyr y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mae Aled yn adnabyddus hefyd fel bridiwr gwartheg Limousin ac ar hyn o bryd mae'n Llywydd cyngor rhyngwladol y brîd.

"Mae'r holl artistiaid â chysylltiad ac amaethyddiaeth ac mae hyn yn bwysig iawn i ni" meddai Emyr Jones, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru.

"Mae Llambed yn ganolfan hwylus i ddwy sir gyfarfod mewn noson sy'n argoeli at fod yn ddigwyddiad hwyliog a chymdeithasol.

"Yn ogystal a bod yn barti pen blwydd mae'r *Noson Lawen* hefyd yn ddathliad o gyfraniad enfawr y diwydiant amaeth i fywyd cymunedol, i'r diwylliant Cymreig ac yn arbennig at gynnal yr iaith Gymraeg yng nghefngwlad", meddai.

Mae tocynnau yn £10 i oedolion a £4 i blant ac ar gael o swyddfeydd yr Undeb – Aberaeron 01545 571222, Caerfyrddin 01267 237974 a Llambed 01570 422556

# BOW STREET

**Oedfaon**

**Capel y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

*Mai*
24 Aelodau'r Eglwys Raymond Jones
31 Terry Edwards

*Mehefin*
7 Noddfa Raymond Jones
14 Roger Ellis Humphreys
21 Gweinidog
28 Terry Edwards

**Noddfa**
*Mai*
24 10.00 Gweinidog Cymundeb
31 10.00 Cyfeillach

*Mehefin*
7 10.00 Gweinidog Y Garn yn uno
14 10.00 Gweinidog Cymundeb
21 10.00 Oedfa Undebol yr Ofalaeth yn
28 10.00 Cyfeillach




**Apêl Nepal**

Trefnwyd bore agored yn festi Capel Noddfa, Bow Street, fore dydd Sadwrn, 2il o Fai i godi arian tuag at Apêl Nepal. Daeth nifer fawr o drigolion lleol ynghyd, a throsglwyddwyd dros £1,700 i Oxfam Aberystwyth. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth barod.

### Merched y Wawr Rhydypennau

Ar y 13eg o Ebrill croesawyd pawb gan ein Llywydd, Mrs Mary Thomas. Anfonodd gyfarchion yr aelodau at Ray Evans a diolchodd i'r rhai a fu'n darparu te yn Afallen Deg. Hefyd, estynnodd longyfarchiadau gwresog i Gaenor ar ddod yn fam-gu unwaith eto. Ar ôl trafod gohebiaeth rhanbarthol, croesawodd Mary y wraig wâdd, sef Lisa Wyn Morgan o Dolau. Mae Lisa wedi mentro i agor busnes newydd gan ddilyn y traddodiad teuluol yn y pentref. Dilynodd gwrs mewn harddwch yng Ngholeg Aberteifi ac wedi'r hyfforddiant hynny mae wedi agor 'Harddwch Siriol'. Cawsom lawer o wybodaeth gan Lisa am yr hyn a gynigir ganddi ac fe gafwyd cyfle i'w holi ymhellach ac i gael golwg ar rai o'r cynnyrch harddwch mae yn ei defnyddio. Lleolir 'Harddwch Siriol' uwchben y siop trin gwallt 'Salon Siriol' ac mae'r faner a'r posteri gwyn a phinc yn eich denu i alw i mewn ac i weld pa fath o driniaethau sy'n apelio. Mae'r dewis yn helaeth ac yn siwr o blesio. Daeth y noson i ben gyda phaned wedi'i pharatoi gan Mair Davies a Shân ac enillwyd y raffl gan Delcy.

Aeth nifer o'r aelodau i Glwb Pengarreg, Llanrhystud ar 14eg o Ebrill i gymryd rhan yn ngemau'r rhanbarth. Cafodd Joyce, Brenda a Shân hwyl ar y gystadleuaeth 'dewis dau ddwrn' a bu Jean, Lisa, Eirian a Delcy yn chwarae dominos. Daeth llwyddiant i ran Eirian a Delcy a bydd y ddwy yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Ŵyl Fai ym Machynlleth.

### Dyweddïad

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Rheinallt Lewis a Sarah Birch, Maes Ceiro, ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

### Brysia wella

Gobeithio fod Rhodri Evans, Bryn Castell gynt, yn gwella ar ôl cael tynnu ei bendics yn ddiweddar – a hynny ar ddiwrnod ei

Llun: Iestyn Hughes



Y Cynghorydd Dewi James, Cadeirydd Cyngor Cymuned Tirymynach, yn cyflwyno anrheg i John a Maria Owen, i nodi achlysur eu hymddeoliad o gadw Swyddfa`r Post, Bow Street. Cyflwynwyd ar ran y gymdeithas fel arwydd o werthfawrogiad am eu gwasanaeth gwerthfawr i`r gymdeithas. Yn y llun a gyflwynwyd i John a Maria gwelir adeilad cyfarwydd y Swyddfa Bost fel yr oedd ar ddiwedd Mis Mawrth eleni ac fel yr oedd dros gan mlyedd yn ôl.



Robert Pugh, 3 Maes Ceiro, yn cyflwyno set o lestri te i gangen Rhydypennau o Sefydliad y Merched er cof am y diweddar Felicity. Bu Felicity yn aelod ffyddlon a gweithgar o`r gangen am flynyddoedd lawer ac yn ystod y blynyddoedd hynny wedi dal amrywiol swyddi gan gynnwys Ysgrifennydd a Thrysorydd.

ben blwydd! Gwelwyd ei eisiau eleni yn Eisteddfod Penrhyn-coch.

### Urddo i'r orsedd

Llongyfarchiadau i Hywel Wyn Edwards, Sychdyn, Yr Wyddgrug - ond o Dregerddan yn wreiddiol - trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol dros gyfnod o chwarter canrif a fydd yn cael ei urddo i'r wisg las yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bu ei waith manwl a chywir yn hyrwyddo llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol o flwyddyn i flwyddyn, yn destun canmoliaeth mawr dros yr holl gyfnod.

### Priodas

Llongyfarchiadau hefyd i Alan a Carol Magor, Tŷ Cerrig, ar eu priodas ar Mawrth 28ain. Pob dymuniad da iddynt.

### Croeso adref

Mae`n braf gweld bod Mrs Ray Evans, 39 Maes Ceiro, wedi dod adref o`r ysbyty. Gobeithio y bydd yn dal ati i wella ar ôl dod adref.

### Newid aelwyd

Pob dymuniad da i Mrs Megan Leeding, Malmeg gynt, yn ei chartref newydd yn 26 Maes Ceiro. Mae`n rhyfedd iawn ei gweld yn y car bach a bod y fan fawr wen ar werth.



**Priodasau**

Llongyfarchiadau i Hannah Gethin, Maelgwyn House, ac Elwyn Hughes, Troedrhiwgwinau, ar eu priodas dydd Sadwrn, Ebrill 25ain yn Eglwys Llangorwen. Cynhaliwyd y wledd ym Mrynrodyn, Y Borth.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Mai*

24 5.00 Beti Griffiths
31 5.00 Dyffryn / Eifion Roberts

*Mehefin*

7 5.00 Bugail Cymun
14 5.00 Bugail
21 10.00 Roger Thomas
28 10.00 John Tudno Williams



### Sul Arbennig

O dro i dro cynhelir Sul y Teulu pan y bydd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Y gweinidog y Parchg Wyn Morris oedd yng ngofal y gwasanaeth ar Fai 3ydd. Gwnaeth y plant eu gwaith yn ardderchog fel arfer.Y thema y tro hwn oedd "Yr Heuwr" Cyflwynwyd tocyn anrheg i Nannon Jones am gywirdeb y daflen y mis diwethaf.

### Hwyl Hwyr

Cynhelir clwb Cristnogol yr Hwyl Hwyr yn arferol, wedi oriau ysgol ar brynhawn Ddydd Gwener, dan arweiniad y Parchg Derek Adams, Aberystwyth. Mae'r plant bob amser yn mwynhau y clwb, gyda gêmau yn ogystal a stori o'r Beibl. Ni fydd y clwb yn parhau dros yr haf tan mis Medi. Dymunwn haf hapus i bawb, a diolch i Derek am ei holl waith.Dymuniadau gorau i Blake a Mia, a fydd yn gadael i'r ysgol Uwchradd yn mis Medi. Byddwn yn eich colli, ond diolch am eich presenoldeb cyson, a phob hwyl yn eich ysgol newydd.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Gwahoddwyd aelodau nifer o ganghennau'r mudiad i ymuno â ni yn ein cyfarfod ym mis Mai. Braf oedd gweld neuadd bentref Pen-llwyn, Capel Bangor yn gyfforddus lawn y noson honno. Croesawyd pawb gan ein llywydd, Eirwen McAnulty. Pleser hefyd oedd croesawu'r gŵr gwadd a oedd yn adnabyddus i'r gynulleidfa gyfan, sef Hywel Gwynfryn.

Dywedodd wrthym iddo dreulio'r diwrnod yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yno bu'n gwneud gwaith ymchwil ar gyfer ysgrifennu llyfr ar y tenor David Lloyd. Clywsom ganddo am yr hyn a'i symbylodd i ysgrifennu'r geiriau ar gyfer y gân boblogaidd "Anfonaf angel" a ble y'i hysgrifennodd.

**Geiriau** – ie, dyna a fu'n bwysig iddo drwy gydol ei fywyd. Clywsom ganddo fel y bu iddo ddechrau ar ei yrfa ym myd radio ac ar ddylanwad Charles Williams arno. Fe'i cyflwynwyd i farddoniaeth yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol gynradd a daeth geiriau barddonol/geiriau cynganeddol i chwarae rhan bwysig yn ei fywyd. Dysgodd nifer o adnodau a phenodau pan oedd yn ifanc ar gyfer eu hadrodd yn y capel. Roedd y rhain yn dal ar ei gof fel y profodd i ni. Bu i'w gof da fod o fantais iddo sawl tro wrth iddo gyflwyno rhaglenni. Credai ei dad ei bod yn bwysig ystwytho'r cof a gosodai dasgau dysgu i'w fab.

Diolchodd Heulwen Lewis iddo am gytuno i ddod atom ac am noson arbennig o ddiddorol ac i'r gwesteion am dderbyn y gwahoddiad i ymuno â'r gangen. Diolchodd hefyd i'r swyddogion am y paratoadau trylwyr a wnaed ganddynt ac i aelodau'r gangen am ddarparu'r bwyd a'r gwobrau raffl niferus. Gorffennodd drwy ddyfynnu englynion o waith Aled Gwyn am Hywel Gwynfryn.

I orffen y noson cafodd pawb gyfle i wledda a chymdeithasu â chyfeillion hen a newydd.



**Eisteddfod Gyntaf**

Da iawn Morgan Lewis, am ennill yr ail am ganu, a'r trydydd am adrodd yn Eisteddfod GadeiriolPenrhyn-coch o dan 6 oed. Dyma dy eisteddfod gyntaf, dal ati Morgan, y cyntaf, y tro nesaf. Tybed a oes gantorion yn y teulu!!

**Annwyl Ddarllenydd,**
**Ymunwch â'r Her Cyw Iâr a helpu i haneru nifer yr achosion o wenwyn bwyd Campylobacter**

Fel cenedl, rydym ni'n caru cyw iâr – mae'n dod â phawb ynghyd o amgylch y bwrdd bwyd am ginio dydd Sul ac o gwmpas y barbeciw ar brynhawniau braf.

Ond mae un broblem fach; gall cyw iâr achosi gwenwyn bwyd. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn amcangyfrif y gellir olrhain oddeutu 280,000 o achosion o wenwyn bwyd y flwyddyn i Campylobacter – germ sy'n byw gan amlaf ar gyw iâr amrwd. Mae'n amhosibl ei weld, ei arogli na hyd yn oed ei flasu mewn bwyd, ond os yw'n effeithio arnoch chi – gyda symptomau yn cynnwys poen yn yr abdomen, dolur rhydd difrifol ac, weithiau, chwydu – nid ydych yn debygol o'i anghofio. Ar ei waethaf, gall Campylobacter eich lladd neu eich parlysu.

Mae'r Asiantaeth eisiau haneru nifer yr achosion o wenwyn bwyd Campylobacter erbyn diwedd 2015. Bydd gwneud addewid i wynebu'r Her Cyw Iâr, a gwneud o leiaf un peth i gadw ein hunain yn ddiogel ac yn iach, yn ein helpu ni i gyrraedd y nod hwn.

Felly, ar gyfer yr Wythnos Diogelwch Bwyd (18 i 24 Mai), mae'r Asiantaeth yn gofyn i chi wynebu'r her ac addo:

- Gorchuddio cyw iâr amrwd a'i storio ar wahân i fwydydd eraill, a'i gadw ar silff waelod yr oergel
- Peidio â golchi cyw iâr amrwd, gan fod hyn yn tasgu germau
- Golchi popeth sydd wedi dod i gysylltiad â chyw iâr amrwd â sebon a dŵr poeth – eich dwylo a'ch offer
- Gwneud yn siŵr bod cyw iâr wedi'i goginio'n drylwyr, gan sicrhau nad oes unrhyw gig pinc, ei fod yn stemio'n boeth a bod y suddion yn rhedeg yn glir

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.food.gov.uk/chickenchallenge a chlicio ar 'Cymraeg'

Nina Purcell
Cyfarwyddwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
Llawr 11, Tŷ Southgate
Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar Nos Iau, 26 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cadeirydd, y Cyng. Dewi James. Yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol dywedodd y Clerc fod y cerbyd sy'n peri rhwystrau wrth fynedfa cae chwarae Bryncastell wedi ei symud, ond fod perchennog y cerbyd o flaen y fynedfa i res blaenaf tai Tregerddan hyd yn hyn yn gwrthod cydymffurfio â'r cais i'w symud. Ategwyd hyn hefyd gan y Cynghorydd Sir yn ei adroddiad a ddarllenwyd yn ei absenoldeb.

Yng ngweddill ei adroddiad soniodd y Cynghorydd Paul Hinge fod mater llwybr o ben lôn Dolau at Rhydypennau nawr yn nwylo yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol gan fod addewid ysgrifenedig y dylai'r gwaith fod wedi ei ddechrau ers diwedd y flwyddyn diwethaf, ond nid yw hyd yma.

Ychwanegodd, yn dilyn cyfarfod gyda'r Clerc, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Rhydypennau ac eraill o ardal Bryncastell, bod Adran y Priffyrdd yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o adeiladu llwybr troed gydag ochr pont y rheilffordd ar ffordd Clarach o dan brosiect Teithiau Diogelach (Safer Routes). Mae angen i Network Rail hefyd osod ffens diogelach ar y ffordd rhwng y bont a mynedfa y cae chwarae.

Derbyniwyd nodyn o'r brif swyddfa yn cydnabod pryder yr ardal am drefniadau yn yr Amlosgfa, a disgwylir ymateb cadarnhaol yn fuan. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth yr Adran Gynllunio bod caniatâd wedi ei roi am newidiadau yn Yr Hen Ysgoldy (Nantafallen), Bow Street – yn cynnwys jacwsi! Gwrthodwyd cais am godi tai yn y berllan tu cefn i Brynteifi.

Mae'r Brawd Mawr am ein gwylio o hyd. Mae gofyn i bob Cyngor Cymuned bellach fod ar y wefan (sy'n costio £500) fel bod pob manylyn yn cael ei gynnwys a hynny yn ddwyieithog. Hyn yn golygu llawer mwy o waith i'n clercod drwy'r sir. Ar y nodyn hyn cymeradwywyd cydnabyddiaeth y Clerc am y flwyddyn nesaf.

* * *

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 30 Ebrill yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Dewi James. Croesawyd John a Maria, gynt o'r Swyddfa Bost, i'r cyfarfod a chyflwynwyd iddynt ddarlun o'r adeilad oedd yn hen efail gynt a'r Swyddfa Bost, fel y bu wedi hynny. Cyflwynwyd y darlun iddynt gan y Cynghorydd James, a diolchodd iddynt am eu hynawsedd yn gwasanaethu y cyhoedd am 35 o flynyddoedd gan ddymuno'n dda iddynt ar eu hymddeoliad.

Dywedodd y Clerc fod Tirymynach bellach ar y We sef www.cctirymynach.cymru Talwyd £500 i Technoleg Taliesin am y gwaith, ac fe dderbyniwyd ad-daliad am y swm hynny oddi wrth Gyngor Ceredigion.

Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig oddi wrth y Cynghorydd Sir, Paul Hinge. Mae'n dal i boeni yr adran ffyrdd am y dŵr sy'n gorlifo ar y ffordd o'r Lôn Groes i Ben-cwm, hefyd am raglen benodol ar y Teithiau Diogelach (Ffordd Clarach), ond nid oes unrhyw symud ar hyn o bryd.

Dywedodd y bydd Tai Cantref yn gosod y tai sydd yn cael eu codi fel ail ran o Gae'r Odyn yn ystod Mis Mehefin. Mynegwyd peth anfodlonrwydd gan yr aelodau gan eu bod yn edrych fel licris olsorts ar hyn o bryd gyda gwahanol lliwiau. Gobeithio mai i bobl lleol a'r cyffiniau y gosodir hwy.

Dal i ddisgwyl am raglen parthed llwybr i'r Dolau y mae'r Cynghorydd Hinge. Pedwar yn unig a dau blismon oedd yng nghyfarfod Pact y noson gynt. Dywedodd bod ambiwlans wedi cael trafferth i fynd mewn at Gartref Tregerddan yn ddiweddar oherwydd y parcio ar y stryd.

Digwyddodd y Clerc (Y Parchedig Richard Lewis) fod yn yr Amlosgfa yr un pryd a rhai o'r penaethiaid ac achubodd ar y cyfle i gwyno am y diffyg trefn ac urddas sydd yn bodoli oherwydd nifer o angladdau yn dilyn ei gilydd. Mewn ffordd o siarad, fe drodd y gwres arnynt hwy, yn hytrach na nhw arnom ni! Cafodd wrandawiad, ond dim mwy.

Mae'r praesept am 2015/16 wedi dod trwyddo. Bydd y cyfarfod nesaf yn gyfarfod blynyddol a hynny ar 28 Medi am 7pm (sylwer).

Cwynwyd bod lamp heb olau ym Mryncastell ers tro byd, a'i bod yn beryglus i'r cyhoedd, hefyd cwynwyd nad oedd digon o wybodaeth glir wedi ei gyflwyno am gau ffordd rhwng Bow Street a Tŷ Coch (top rhiw Rhydhir) o 5 Mai ymlaen.

# Etholiad Cyffredinol 2015

Tua 3 o'r gloch y bore oedd hi. Ro'n i'n sefyll o flaen camera ar y pryd - ond dim ond un cofiwch. Y tu ôl y mi, wedi ei llyncu gan sgrym o ffotograffwyr barus ("One more Nicola", "This way Nicola"...) roedd Prif Weinidog yr Alban.

O fewn oriau byddai wyneb Nicola Sturgoen ar flaen y papurau newydd. Funudau ynghynt roedd cefnogwyr ei phlaid wedi ffurfio côr o'n blaenau yn barod i groesawu eu harweinydd. A ninnau wedi cael rhybudd i beidio mentro'n nes.

Erbyn hyn roedd aelodau'r SNP wedi ymgynull o flaen sgrîn fawr y neuadd chwaraeon i glywed be oedd yn digwydd ar draws y wlad.

Drwy ffenestri'r gampfa mae modd gweld Celtic Park - stadiwm pêl-droed sydd wedi gweld ei siâr o ganlyniadau cyffrous.

Ond ym merfeddion bore Gwener yr 8fed o Fai - tro'r adeilad hwn oedd hi i brofi'r fath gynnwrf.

O'n cwmpas roedd y papurau pleidleisio'n pentyrru - ac yn pentyrru - o blaid yr SNP wrth i'r cyfri ar gyfer saith etholaeth dinas Glasgow barhau.

(SNP 7 - o Llafur fyddai'r sgôr terfynol.)

I'r ochr safai aelodau'r blaid Lafur - yn eu plith, saith o ymgeiswyr seneddol oedd yn dechrau sylweddoli eu bod nhw bellach yn ddi-waith.

Ond yn ôl wrth y sgrîn deledu roedd y dathlu wedi hen gychwyn wrth i'r canlyniadau o etholaethau eraill yr Alban brofi bod y wlad yn troi'n felyn.

Ie, tua 3 o'r gloch oedd hi pan y daeth hi'n amlwg bod yr Alban wedi dewis llwybr newydd - a hwnnw'n benderfyniad sy'n siwr i gael effaith arnom ni yng Nghymru hefyd. **Cemlyn Davies**

**Mae Cemlyn – o Benrhyn-coch – yn Ohebydd Gwleidyddol gyda BBC Cymru**

## 'It was the Cambi wot won it!'

Profwyd unwaith eto yn yr etholiad hwn mai sir unigryw yw Ceredigion, a waeth imi gyfaddef o'r cychwyn fy mod yn crafu pen llawn cymaint a'r person nesaf dros y canlyniad. Rhaid i rywun feddu ar ddoniau goruwchnaturiol i wir ddirnad y rheswm tu ôl i benderfyniadau'r Cardis. Tra bod eraill wedi troi eu cefnau ar y Rhyddfrydwyr, parhau i ddal ei afael ar yr etholaeth y mae Mark Williams. Do fe dderbyniodd ei bleidlais ergyd sylweddol, gyda'i siâr yn cwympo o 50% i 35%. Ond yr hyn na ddigwyddodd i'w ddisodli oedd cynnydd cymharol ym mhleidlais Plaid Cymru.

A yw pobl Ceredigion yn barotach dychwelyd aelod o Blaid Cymru i Gaerdydd na San Steffan oherwydd amgylchiadau gwahanol yr Etholiad Cyffredinol tybed? Neu ai'r bleidlais 'bersonol' yna sy'n hollbwysig a'r hyn y mae Mark Williams yn dibynnu arno? Afraid dweud na roddwyd llawer o gymorth i Mike Parker feithrin y cyswllt yna gyda phobl Ceredigion, oherwydd ystrywiau pardduo'r *Cambrian News* - a'i awgrym hurt bod yr ymgeisydd o Sais yn ystyried Saeson yn Nazis. Yn wir, roedd yna elfen o'r abswrd yn perthyn i'r holl beth, ond yr awgrym gan rai fuodd yn cnocio drysau oedd bod nifer yn methu, neu ddim am weld tu hwnt i'r penawdau.

Trist iawn oedd gweld y *Cambi* yn plymio i'r fath ddyfnderoedd nad sy'n deilwng o bapur gyda chryn dipyn o hanes. Siomedig hefyd nad oedd yr ymgeiswyr eraill, gan gynnwys ein haelod anrhydeddus, wedi beirniadu'r papur am ostwng lefel yr ymgyrchu. Tebyg bod y *Cambi* bellach yn dal eu gafael ar wleidyddion Ceredigion fel y mae'r *Sun* yn gwneud ar arweinwyr y Pleidiau Prydeinig!

Syndod arall oedd gweld y bleidlais Dorïaidd yn sefyll yn gadarn, am fod y rhan fwyaf o Geredigion heb gwrdd a Henrietta Henshaw nes iddi ymddangos yn gwenu'n braf wrth ochr Mark Williams ar lwyfan y cyfrif. Efallai bod y *dalliance* byr yma'n awgrymu rhyw wirionedd yn y si bod y Tori yn cadw draw er lles y bleidlais ryddfrydol, ond nid yw'r ffigyrau'n awgrymu bod hynny wedi dwyn ffrwyth. Mae'r 3829 pleidlais i UKIP yn tystio i apêl cynyddol y Blaid honno ymysg lleiafrif sylweddol, ond sut roedd Gethin James, y Cymro Cymraeg, yn cysoni ei safbwynt ef gyda Phlaid sydd yn llai na charedig i'w famiaith, does ond gwybod. Ond fel yn achos y Cardis yn gyffredinol, ofer, efallai, yw ceisio dibynnu gormod ar reswm i esbonio'r pethau yma.

Wrth gwrs, erbyn hyn rhaid cydnabod mai nid mwyafrif llethol o Gardis sydd yn y sir bellach, a digon posib bod y 27% o bobl yna sy'n byw yma ond sy'n hannu o du hwnt i Gymru yn effeithio ar y bleidlais mewn ffyrdd amgen Yr hyn sy'n sicr yw bod y ffigwr yma yn ei hunan yn un sydd yn ennyn trafodaeth, a siom oedd y diffyg parodrwydd ar ran y gwleidyddion i'w drafod mewn modd aeddfed, yn benodol ***y*** cwestiwn sylfaenol - sef gallu pobl ifanc y sir i aros yn eu milltir sgwâr.

Ac un nodyn olaf – efallai'r tro nesaf y bydd rhywun yn adlewyrchu ar yr etholiad cyffredinol, nid trafod Ceredigion y byddant, ond Ceredigion a Gogledd Penfro unwaith eto, wrth i'r Torïaid edrych i dorri niferoedd a dylanwad y Cymry yn San Steffan. Pa effaith gaiff hyn ar y canlyniad? Dim ond ffŵl fyddai'n dyfalu!

**Mae Dr Huw Williams, Caerdydd, (Dolau gynt) yn ddarlithydd mewn Athroniaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

BBC Cymru





Mark Williams (Dem Rhydd) **13,414**
Mike Parker (Plaid Cymru) **10,347**
Henrietta Hensher (Ceidwadwyr) **4,123**
Gethin James (UKIP) **3,829**
Huw Thomas (Llafur) **3,615**
Daniel Thompson (Y Blaid Werdd) **2,088**
**Pleidleisiodd: 69%**

# Y BORTH

### Ffilm o daith trên

Mae'r ffotograffydd Robert Davies sydd yn byw yn Nhaliesin yn ffotograffydd. Yn 2006 cyhoeddodd lyfr ar y cyd a'r newyddiadurwr blaenllaw Richard Williams ond ei brosiect diweddaraf yw ffilm o daith trên o Birmingham i Aberystwyth. Gosodwyd y camera yng nghaban y gyrrwr. Ni chai ef aros yno felly roedd yn rhaid iddo eistedd gyda'r teithwyr ar y trên. Cymerodd y ffilm 18 mis i'w chwblhau gyda Robert yn teithio 86 gwaith ar y trên. Y canlyniad yw ffilm ddifyr ddwyawr o hyd yn dangos gwahanol ardaloedd ar dymhorau gwahanol. Mae yn cynnwys llifogydd a machlud haul hardd wrth gyrraedd y Borth.

Ymhlith nifer helaeth o ganolfanau lle gellir gweld y ffilm mae Amgueddfa Gorsaf y Borth 1-31 Awst; Canolfan Gelfyddydau Canolbarth Cymru, Caersws tan 30 Hydref; MOMA Cymru, Machynlleth o 20- 31 Gorffennaf; Amgueddfa Powysland, y Trallwng o 31 Gorffennaf hyd 5 Medi; Siop Lyfrau Oriel Pen'rallt, Machynlleth o 1-31 Awst; Oriel Davies, y Drenewydd 19-30 Medi. Ceir mwy o fanylion ar y wefan www.oftimeandtherailway.com

### Mwy o drenau

Ers Mai 17 cynyddwyd y nifer o drenau sydd yn teithio o'r Borth am yr Amwythig. Mae pedair trên ychwanegol yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sadwrn gyda gwasanaeth pob awr ar amserau brig. Bydd trenau yn gadael gorsaf y Borth am 41 munud wedi'r awr rhwng 5.41 a 19.41 – ar wahân i 10.41 a 14.41 a 16.41. Mae pedwar gwasanaeth ychwanegol yn dychwelyd o'r Amwythig i Aberystwyth am 6.25am, 10.29am, 6.31pm a 8.30pm. Mae hefyd ddwy drên ychwanegol ar ddyddiau Sul yn gadael y Borth am 10.30 a 2.33 ac yn dychwelyd o'r Amwythig am 4.29 a 6.28 pm.



### Lleng Brydeinig y Borth

I gofio Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (Diwrnod VE) a Diwrnod dathlu`r fuddugoliaeth yn erbyn y Japaneaid (Diwrnod VJ) bydd Cangen y Borth o'r Lleng Brydeinig yn cynnal ei orymdaith ddwyflynyddol nos Fercher 24 Mehefin. Gofynnir i gyn filwyr, aelodau o'r Lleng ac unrhyw un fyn ymuno gyfarfod o flaen Gorsaf y Borth am 6.15, cyn yr orymdaith am 6.30. Am 7.30 bydd cyngerdd gan Sgarmes yn Neuadd Goffa'r Borth. Croeso cynnes i bawb.

### Eglwys St. Mathew

Bydd 22 aelod o Ysgol Sul Eglwys St. Mathew gyda rhai ieuenctid o'r eglwys, rhieni ac athrawon yn cymryd rhan yn y Ras Am Fywyd yn Aberystwyth dydd Sul Mai 17eg. Gobeithiwn fedru cyhoeddi yn y rhifyn nesaf o'r Tincer i ni godi mwy ar gyfer yr elusen arbennig yma na'r £1,007 gasglwyd y llynedd.

Dydd Sul 23ain Mai bydd Gwasanaeth Cymun am 11.15 a.m. ar gyfer y Sulgwyn a 3.30 y prynhawn Hwyrol Weddi. Ym Mehefin bydd ycgydig newid ar batrwm arferol ein gwasanaethau. Dydd Sul Mehefin 7fed am11.15 Boreol Weddi 14eg Cymun 21Cymun a 28ain Gwasanaeth Teuluol gyda chynorthwy yr ieuenctid. Mae croeso cynnes i bawb yn y gwsanaethau i gyd.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.15 a.m. ar Fehefin 7fed.

### Cymdeithas Henoed y Borth

Yn ein cyfarfod diwethaf roedd yn bleser croesawu staff a disgyblion o Ysgol Craig yr Wylfa. Fel arfer roedd y plant yn dalentog, yn ymddwyn yn fonheddig a chawsom ein diddanu ganddynt. Da iawn pawb. Buont yn canu, canu offerynnau ac roedd aelodau y Gymdeithas i gyd yn canu a tharo eu traed i'r gerddoriaeth. Diolch Craig yr Wylfa am y prynhawn. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni eto.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ymweliad gan grŵp Gofal a Thrwsio fydd yn dod a llawer o wybodaeth efo nhw sut i wneud ein cartrefi yn fwy diogel.

Byddwn wedyn yn brysur yn paratoi am y Ffair Elusennau fydd yn Neuadd Goffa y Borth dydd Llun Mai 25ain a bydd cyfarfod nesaf y Clwb yn y Neuadd am 2.00 brynhawn Iau Mai 28 am 2.00. Cofiwch ddod i ymweld.

# CLARACH





Ffilmio y Gwyll yn y Clarach Bay Holiday Village. Diolch i Thomas Scarrott am y lluniau

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ann Ellis, Hywelfan a'r teulu, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith - Lewis Griffiths, Rhydyfelin.'Rydym yn cofio hefyd am ei wraig Margaret a'r teulu. Cawsom dipyn o gwmni Lewis a Margaret yng Nghwmrheidol ar hyd y blynyddoedd gan eu bod yn hoff iawn o fynychu ambell i oedfa yng Nghapel Llwyn-y-groes. Dymunwn hefyd well iechyd i Margaret yn fuan.

### Brysiwch wella

Treuliodd Aneurin Morgan, Y Byngalo, ddau ddiwrnod yn Ysbyty Bron-glais dechrau mis Mai ond mae tipyn yn well erbyn hyn. Dymuniadau gorau am well iechyd i fwynhau yr haf.

### Urdd y Benywod

Gorffennwyd y tymor gyda noson allan. Aethom i lawr Blas-crug i ymweld â adeilad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cafwyd amser diddorol iawn yn edrych ar hen luniau a mapiau o ardal Aberystwyth a thu hwnt ac yna cafwyd pryd o fwyd ym Mwyty'r Pier. Noson fendigedig i gloi tymor arall a fu yn un llwyddiannus iawn.

Dyma lun o Alpacas Mike a Gill Hafod, y Glyn, sydd wedi ymgartrefu yn y Cwm yn ddiweddar.



ytincer@googlemail.com

# TREFEURIG


### Penodi'n Is-Gadeirydd

Llongyfarchiadau i Dai Mason, ar gael ei benodi yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion am 2015–2016.

# Taith gerdded y mis

## Tre'r-ddôl i Lletyllwydyn

**Man dechrau**: Cilfan ar y dde ar ôl mynd heibio'r caffi.
**Map**: OS Explorer OL23. GR 662924.
**Pellter**: 3.6 milltir. Hawdd.




O'r gilfan chwiliwch am lwybr a fydd yn mynd â chi drwy'r goedwig a dod allan i ffordd gul. Trowch i'r dde a mynd heibio Ynys Tudor, Cefngweiriog a Llety'r Fran ac eto i'r dde heibio Llety Llwydyn. Pan fydd y ffordd yn dechrau disgyn chwiliwch am lwybr i'r chwith. Llwybr newydd yw hwn â fydd yn eich arwain lawr at afon Cletwr â Tre'r-ddôl. Cwpaned yng nghaffi Tre'r-ddôl.

BWYD DA . . .
CWMNI DA . . .
yBlac TALYBONT
BWYTY A BAR
CINIO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINIO SUL 12.00 - 3.00
AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk
Gwelwn chi'n fuan. . . Cofion Siân, Catrin a'r tîm
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
**Mai**
24 10.30 Y Parchg Raymond Jones
31 10.30 Y Parchg Judith Morris

**Mehefin**
7 2.30 Dr Rhidian Griffiths
Oedfa gymun
14 10.30 Y Parchg Judith Morris
Oedfa deuluol
21 2.30 Beti Griffiths
28 10.30 Arawn Glyn



Aeth naw o ferched Brownies Penrhyn-coch am benwythnos i Blas Dolau, Lovesgrove yn ddiweddar. Thema'r penwythnos oedd siocled! Cafwyd amser difyr iawn yn gwneud gwahanol weithgareddau a chymysgu gyda merched eraill o ardal Aberystwyth.

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 27 Mai a 10 a 24 Mehefin. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Diolch

Hoffai Catrin Galbraith a Sioned Martin ddiolch i bawb fu ynghlwm a thrydedd Twrnament Eric ac Arthur Thomas, Penrhyn-coch Roedd mor galonogol fod dros 70 tîm wedi cystadlu gyda 450 o blant rhwng 4 neu 5 oed ac 16 oed yn chwarae. Gwerthfawrogir yr amser a'r gwaith a roddwyd i sicrhau cystadleuaeth lwyddiannus.

### Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar nos Iau 9fed o Ebrill gan ein Llywydd, Wendy Reynolds. Trafodwyd unrhyw ohebiaeth oedd wedi dod i law yn ystod y mis. Yna croesawodd y Llywydd ein gwraig wadd, sef Mair Jones. Cafwyd noson hwylus iawn yn ei chwmni drwy gymryd rhan mewn sesiwn 'Ioga o'r Gadair'. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr ac wedi llwyr ymlacio erbyn diwedd y sesiwn. Diolchwyd iddi a chafwyd paned a thynnu'r raffl cyn troi am adre.



### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lisa a Rhys Davies, Caernarfon, ar enedigaeth merch fach – Magi ar Fai 2il. Chwaer fach i Nel a Jac; wyres arall i Non a Colin Evans, Rhydygof.

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Dyfed Elias ar 4 Mai yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno yn 77 oed. Fe'i magwyd yn Nhŷ'r Ardd, Gogerddan.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu a chysylltiadau y diweddar John Urry, Ger y Nant. Bu Mr Urry yn ffyddlon iawn i bopeth a fyddai yn digwydd yn Neuadd yr Eglwys, ac hefyd yn fawr ei barch yn y pentref. Cofir amdano fel rheolwr Woolworths, Aberystwyth, lle bu am flynyddoedd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu a chysylltiadau y diweddar Arwyn (Jim) Richards, Ceirios. Un o blant y pentref oedd Jim a phob amser yn barod i wneud cymwynas ag unrhyw un. Fe welir ei golli yn fawr iawn yn y cinio cymunedol yn y Penrhyn. Roedd yn berson tawel iawn ond yn barod i roi ei farn ar unrhyw beth. Roedd ei ddiddordeb mewn awyrennau a threnau yn fawr iawn, ac fe fyddai yn mynd dros y wlad i bob achlysur a fyddai yn ymwneud a chynnwys unrhyw beth i wneud â threnau, a difyr oedd gwrando arno yn dweud yr hanes.

### Cylch Ti a Fi

Mae Cylch Ti a Fi Trefeurig yn cyfarfod pob bore Mercher yn ystod tymor ysgol yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch rhwng 10.00 a 12.00. Mae y Cylch yn rhoi cyfle i rieni a gwarchodwyr gwrdd mewn awyrgylch anffurfiol. Cewch ddod â'ch babi bach a'ch plant hyd at oed ysgol i'r cylch Ti a Fi i gyd-chwarae a phlant eraill. Caiff y plant gyfle i fwynhau chwarae gyda phob math o deganau, peintio, chwarae gyda chlai, cael stori a chanu, a chewch chi gyfle i ymlacio a sgwrsio dros baned efo oedolion eraill.

### Gwellhad buan

Da yw deall fod Henry Thomas, Cwmfelin, wedi dod gartref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, ac yn gwella.

Hefyd Clifford Evans, Beech House, sydd gartref o'r ysbyty ar ôl triniaeth ac yn gwella yn raddol.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Danny Thorogood, Glan Ceulan, ar ôl damwain gyda'i feic ar 7 Mai.

### Lowri yn perfformio

Nos Sadwrn 23 Mai bydd cyfle i glywed Rhys Taylor (clarinet) a Lowri Guy yn perfformio yn y Tabernacl, Machynlleth am 7.30 Mae Lowri (nee Evans) yn enedigol o Benrhyn-coch ac yn gyfarwydd i ni yma fel cyfeilydd Eisteddfod y Penrhyn ers sawl blwyddyn. Derbyniodd radd BMus, dosbarth cyntaf ac MA, Anrhydedd mewn Cerddoriaeth o Goleg Prifysgol Cymru, Bangor, ac mae bellach yn bennaeth Cerddoriaeth yn Ysgol Gyfun Garth Olwg, Pontypridd. Mae'n adnabyddus fel cyfeilydd ac wedi bod yn gyfeilydd swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ar gyfer Ysgoloriaeth Urdd Gobaith



Llongyfarchiadau i Sioned Exley, Ger-y-llan, sydd wedi graddio i fod yn "Brown Belt" yn Karate. Mae Sioned yn cael ei hyfforddi gan Sensei Paul James a Sensei Toni James, yn Ikkyo Dojo sydd yn cynnal dosbarthiadau yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth. Bydd y "Black Belt" yn dod cyn bo hir!

Cymru Bryn Terfel nifer o weithiau.

Mae Rhys yn gyfarwydd i gynulleidfaoedd yr ardal fel un o Aberystwyth; graddiodd yn 2005 o Goleg Cerdd Brenhinol y Gogledd lle graddiodd gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Cafodd brofiad gwerthfawr drwy berfformio fel unawdydd mewn sawl perfformiad – fel Concerto clarinet Artie Shaw gyda Band Mawr yr RNCM; perfformiodd goncertos Mozart, Weber a Copland ac ym Mawrth 2005 Goncerto clarinet Copland gyda Cherddorfa Gymreig y BBC yn Neuadd Brangwyn, Abertawe . Cyhoeddodd albwm yn Nhachwedd 2006 'In Two Minds / Mewn Dau Feddwl', ar label 'Kissan'. Mae Rhys yn berfformiwr profiadol yng Nghymru a thu hwnt – perfformiodd ym Mwyty Madisson, Long Beach, California ac yn Eglwys Gymraeg Los Angeles. Enillodd Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn 2006. Ac fe'i gwelwyd fel Cyfarwyddwr Cerdd sioeau Theatr y Werin sawl haf yma yn Aberystwyth.

Bydd rhaglen Machynlleth yn cynnwys gweithiau gan Debussy a Finzi.

**Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch**

### Te hufen a mefus

Cynhelir te hufen a mefus blynyddol yr Eglwys brynhawn Sadwrn y 4ydd Gorffennaf rhwng 3-5 y.p.

### Gŵyl Coeden Nadolig 2015

Thema'r ŵyl eleni fydd 'Ail-gylchu. Gobeithio bydd hyn yn rhoi ychydig o amser i chi feddwl a pharatoi eich syniadau o flaen llaw.

### Cwis, caws a gwin

Cafwyd noson hwyliog yng ngofal y cwisfeistr Bob Hughes Jones ar nos Wener 1af Mai, gyda chwe thîm yn bresennol. Y tîm buddugol oedd y Grŵp Llyfrau, llongyfarchiadau mawr iddynt.

### Ordeinio Diacon

Os oes gennych ddiddordeb i fynychu gwasanaeth Ordeinio Lyn Lewis Dafis fel Diacon, mae Eglwys Sant Ioan yn bwriadu trefnu bws. Cynhelir y gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi am 10 y bore ar ddydd Sul 28 Mehefin. Am fwy o fanylion ynglŷn â threfniant y bws, cysylltwch â'r Ficer Andrew Loat neu Edwina Davies.


### Bedydd

Ar ddydd Sul 10fed Mai, bedyddiwyd Archie Edward Makraruk, mab i Robyn a Stephanie, Dôl Helyg, yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch

### Cyn ficer yn sefyll etholiad

Gwelwyd y Parchg Neil Fairlamb – cyn reithor Penrhyn-coch – yn sefyll etholiad dros y Toriaid yn etholaeth Dwyfor-Meirionnydd. Dyma'r canlyniad:

Liz Saville Roberts (Plaid) 11,811
Neil Fairlamb (Ceidwadwyr) 6,550
Mary Griffiths Clarke (Llafur) 3,904
Christopher Gillibrand (UKIP) 3,126
Louise Hughes (Annibynol) 1,388
Pleidleisiodd: 65.1%




### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cafwyd cystadlu brwd a safonol mewn awyrgylch hwyliog a chartrefol nos Wener 24 a Sadwrn 25 Ebrill. Cafwyd y gefnogaeth arferol o Ysgol Penrhyn-coch ar y nos Wener – er fod nifer o'r plant i ffwrdd ar weithgaredd penwythnos. Gwelwyd hefyd nifer o blant sydd yn byw yn y pentref ac yn mynychu ysgolion eraill yn cystadlu. Daeth nifer dda ar y pnawn Sadwrn i gystadlu yn yr adrannau oed cynradd, a'r beirniaid yn canmol y safon. Roedd presenoldeb tri chôr yng nghyfarfod yr hwyr yn sicrhau cynulleidfa niferus er iddi deneuo yn hwyrach y noson.

Y beirniaid eleni oedd: Nos Wener (Lleol): Cerdd – Sion Eilir, Pwll-glas, Rhuthun. Llefaru: Heledd Llwyd, Talgarreg. Dydd Sadwrn (Agored): Cerdd : Sioned Webb, Llanfaglan; Llefaru a Llên: Elin Williams, Cwm-ann. Cyfeiliwyd gan Heddwen Pugh-Evans nos Wener a Lowri Guy dydd Sadwrn.

Yr Arweinyddion oedd Emyr Pugh-Evans, Gregory Vearey-Roberts a Manon Reynolds.

Y llywyddion oedd Ceri Williams, Dwyran, Môn ( gynt o Benrhyn-coch) – nos Wener; Rhian Davies, Llanfihangel-y-Creuddyn, pnawn Sadwrn a Glenys Jenkins, Tal-y-bont (nos Sadwrn).

Swyddogion newydd y pwyllgor eleni oedd: Cadeirydd: Marianne Jones-Powell; Ysgrifennydd : Ceris Gruffudd; Is-ysgrifennydd: Llio Adams; Trysoryddion: Robert Dobson a Bethan Davies.

Gwelir rhestr canlyniadau a lluniau ar wefan Trefeurig http://www.trefeurig.org/ a thudalen Facebook Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.

Cynhelir Eisteddfod 2016 ar 22 -23 Ebrill 2016.

### Pêl-droed

**Tîm cyntaf**
11/04/15 *Cynghrair*
Tywyn & Bryn-crug 1-1 Penrhyn-coch
15/04/15 *Cwpan Cynghrair*
Penrhyn-coch 4-0 Tywyn & Bryn-crug

18/04/15 *Cynghrair*
Llanfair 0-0 Penrhyn-coch
22/04/15 *Cynghrair*
Carno 4-2 Penrhyn-coch
25/04/15 *Cynghrair*
Rhos-goch 1-1 Penrhyn-coch

**2il dîm**
8/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 0-5 Llanilar
25/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 1-2 Dolgellau
29/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 1-0 Padarn

**3ydd tîm**
11/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 0-5 Eilyddion y Borth
18/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 1-3 Eilyddion Tal-y-bont
25/04/15 *Cynghrair*
Penrhyn-coch 0-5 Eilyddion Dolgellau

Menywod heb chwarae

# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH

**Detholiad o feirniadaeth**

Testun y gadair eleni oedd Aros. Gair diddorol am ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio mewn dwy ffordd o leiaf. Y syniad o 'aros am rywbeth' (*to wait*, disgwyl) a'r syniad o arhosiad (*to remain*). Yr hyn sy'n aros ar ôl i bethau eraill ddiflannu efallai. Cafwyd ymatebion amrywiol – ond mwy am hynny nes ymlaen.

Daeth pedair cerdd ar bymtheg i law. Nifer dda dros ben. Y testun yn apelio efallai. Neu arwydd o'r ffaith bod cadair Penrhyn-coch yn un y mae beirdd yn awyddus i'w chipio.

Cerdd a wnaeth fy mhenderfyniad yn un hawdd. Cerdd **Maldwyn.**

Cywydd hudolus sydd yma sy'n sôn am y bardd – rhiant fwy na thebyg yn mynd i lan y môr gyda'i ferch fach saith oed rhyw fore. Mae'n adeg i'w thrysori, cyfnod chwareus. Mae nhw'n mynd i'w man bach arbennig nhw ar y traeth....

Mae'r bardd eisiau i'r adeg hon aros gydag ef (neu hi). Ond sylweddola mai cyfnod byrhoedlog ydyw ac mae'r tonnau'n drosiad o amser yn mynd yn ei flaen a'r don newydd yn cilio.

Roedd rhywbeth brau yn y berthynas rhwng y rhiant a'r plentyn. Tybiais ar un adeg bod y plentyn bach yn sâl a bod y rhiant eisiau aros yng ngwynfyd y cyfnod hwn ar lan y môr.

Pa un ai darlun o blentyn sâl a'i riant, ynte darlun o wynfyd plentyndod sydd yma, â'r awydd i aros yn y gwynfyd hwnnw, mae'r gerdd yn taro deuddeg. Gwobrwyir Maldwyn gyda holl glod yr eisteddfod.

**Elin Williams**



Arvid Parry-Jones

*Anwen Pierce yn ennill y gadair am y trydydd tro*

## AROS

Heibio i'r byd, un bore bach
a'n hennyd yn gyfrinach,
aethom ar ras i'n traethell –
nyni a'r heli, ymhell
o sgrech ddiddiwedd y sgrin
at wanwyn. Daeth y twyni'n
eiddo iddi yn ddi-oed –
hithau yn llond ei seithoed,
a'i thywod a'i phetheuach
yn bywhau ei bodiau bach,
dwylo llon yn hidlo llwch
yn fore o ddifyrrwch;
un orig ar dwyn euraid,
munud bach o'n mynd di-baid.

Yn y man, o'r morlannau
rhyw fân naws oer fyn nesáu,
ac er ceisio rhwystro'r rhod,
erfyn ar lif anorfod,
gwn y daw, o gŵyn y don
yn rhy iachus ei throchion,
hen ddŵr, gan roi ôl un ddel
dan awch rhyw don anochel.

Ond rhown y byd, draw'n y bae,
i hudo mân funudau
ein hawr, a'u cadw'n hirach,
yn gofeb o'n bore bach,
plygu a phocedu'r cof
i'w swyn gael aros ynof,
a dal pob un cwmwl du
o farian ei hyfory.

**Anwen Pierce**



Arvid Parry-Jones

*Gwyn Jones, Llanafan, enillydd ar y canu emyn*



*Elen Hughes o Gaerdydd yn canu Cân y Cadeirio; rhoddwyd y gadair er cof am dad-cu a mam-gu Elen a'i mam-gu, Eirlys Hughes ganodd Cân y Cadirio yn yr Eisteddfod gyntaf – 1964*

## SONED

**Llythyr Pennal**

O Bennal aeth y llythyr ar ei daith
At frenin Ffrainc, yn erfyn am ei nawdd
A'i gymorth, wedi'r darostyngiad maith
Gan 'hil farbaraidd' o'r tu hwnt i'r Clawdd.
Drwy'r wlad, aeth galwad daer Glyndŵr i'w clyw
Yn sôn am godi cenedl ar ei thraed;
Ef oedd y Mab Darogan, ef y llyw
A fyddai'n dial am gamweddau wnaed.
Ymhlyg yng ngeiriau'r llythyr roedd apêl,
A hanfod gweledigaeth glir Glyndŵr;
Ynddo roedd addewidion o dan sêl,
A dyheadau uchelgeisiol, brwd un gŵr.
Ond disgyn ar glust fyddar wnaeth y cais,
A gadael gwlad o hyd dan orthrwm Sais.

**John Meurig Edwards, Aberhonddu**



*Beirniaid nos Wener – Heledd Llwyd o Dalgarreg (Llefaru ac offerynnol) a Sion Eilir, Pwll-glas, Rhuthun (Cerddoriaeth)*



*Roedd yn dda gweld Ceri Williams nôl o Dwyran, Ynys Mon, fel Llywydd nos Wener; fe'i gwelir efo Cadeirydd yr Eisteddfod, Marianne Jones-Powell.*



Arvid Parry-Jones

*Osian Tudur Mills 1af ar yr Unawd (Dosbarth Derbyn) ; 2il ar y Llefaru (Dosbarth Derbyn) nos Wener a Thrydydd ar yr Unawd a'r Llefaru (Dosbarth Derbyn neu Iau) bnawn Sadwrn a Hannah Willis 1af ar y Llefaru (Dosbarth Derbyn) nos Wener*

## TELYNEG

**Ôl-traed**

O'm bwthyn gynt fe gerddwn
Ddwy filltir hir o daith
Bob dydd i fynd i'r ysgol,
Dros lwybrau geirwon, llaith;
Fe rodiwn dros y rhostir
Lle porai'r gwartheg blith,
Ac ôl fy nhroedio amlwg
Yn chwalu perlau'r gwlith.

Ond bellach nid yw'r gwartheg
Yn pori ar y rhos,
Na golau lampau'r bwthyn
I'w weld yn nhrymder nos,
A chrwt yn croesi'r rhostir
Nid yw yn awr on rhith,
A dim on haul y bore
Sy'n chwalu perlau'r gwlith.

**John Meurig Edwards, Aberhonddu**



Arvid Parry-Jones

*Gronw Fychan Downes gyda'r Corn Gwlad yn seremoni y Cadeirio; daeth Gronw yn gyntaf hefyd ar yr unawd offerynnol cynradd nos Wener*

# Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Cafwyd Cymanfa lwyddiannus dros ben eleni ar Sul 10fed o Fai yng Nghapel Y Garn, Bow Street. Cafwyd y defosiwn dechreuol gan y Parchg Wyn Rhys Morris ac Alan Wynne Jones oedd yn llywio'r gwasanaeth ac yn arwain y plant yn y canu a gwnaeth hynny mor ddiddorol i'r plant, hwythau yn ymateb mor dda. Plant o'r gwahanol Ysgolion Sul oedd yn cyflwyno'r emynau ac yn eu canu gyda'r oedolion yn ymuno yn yr emyn cynta a'r olaf.  Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Zoe Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid am hanes Sacheus a chafwyd drama fer gan aelodau o'r eglwysi yn adrodd stori Sacheus, gwych iawn. Y Parchg Wyn Rhys Morris roddodd y fendith ar y diwedd. Fel canlyniad i gasgliad y bore trosglwyddwyd dros £300 i Gronfa Nepal.

Yn yr hwyr cafwyd Cymanfa'r oedolion. Alan Wynne Jones oedd llywydd y noson a dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parchg Wyn Rhys Morris. Cyflwynodd Alan Wyn Jones yr arweinydd Mr Rob Nicholls, Caerdydd, sydd yn adnabyddus i bawb. Dan ei arweinyddiaeth cafwyd canu bendigedig, pawb wedi mwynhau hefyd. Cafwyd anerchiad ddiddorol iawn gan Alan Wynne Jones. Traddodwyd y Fendith gan y Parchg Wyn Rhys Morris.

Llio Penri gyfeiliodd yn y ddwy oedfa.

Cynhelir Cymanfa 2016 ar yr 8fed o Fai yn Seion, Stryd y Popty a'r arweinydd fydd Mr Rob Nicholls

Diolchwyd i Elizabeth Lloyd Jones oedd yn rhoi y gorau i fod yn ysgrifennydd – bu nid yn unig yn ysgrifennydd y Gymanfa hon y blynyddoedd diwethaf ond  hefyd bu cyn hynny yn ysgrifennydd Cymanfa Dosbarth y Garn. Cyhoeddwyd mai Eleri James, Penrhyn-coch  (Salem) fydd ysgrifennydd newydd y Gymanfa.



Lluniau: Iestyn Hughes



Bow St



Pen-llwyn



Penrhyn-coch



# Pabell Gynnyrch Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion mor gynhyrchiol ag erioed

Mae cystadlaethau ffotograffiaeth y Sioe wedi cael hwb ychwanegol eleni, diolch i Siop Ffoto Shop, Heol y Wig, Aberystwyth. Mae talebau ffotograffiaeth Siop Ffoto Shop ar gael i enillwyr dosbarthiadau Cynradd ac Uwchradd o fewn yr adran ffotograffiaeth. Delyth Morgan o fferm Pwll-glas, Llandre yw ysgrifenyddes y Babell Cynnyrch, a dyma oedd ganddi i'w ddweud: "Rwy'n credu bydd y gwobrau hael hyn yn hwb ychwanegol i ddisgyblion a myfyrwyr ysgolion Ceredigion rannu eu talentau gyda'r cyhoedd. Mae'r gwobrau hael hefyd yn mynd i'w galluogi i ddatblygu eu doniau." Mae'r gystadleuaeth ffotograffiaeth i oedolion hefyd yn agwedd bositif o'r Sioe ac arhoswn yn eiddgar am weld cynigion eleni. Yn ogystal â'r cyffeithiau, gwinoedd, bara a chystadlaethau gosod blodau, mae'r Sioe yn cyflwyno Adran Fêl o'r newydd. Gyda thywydd y gwanwyn yn ffafriol hyd yn hyn, gobeithio y bydd y gwenyn wedi bod yn gynhyrchiol dros ben.

Fel yr arfer, bydd talentau'r plant lleol yn wledd i'r llygaid yn Adran y Plant a noddir yn garedig gan y *Cambrian News*. Bydd yr ysgolion lleol yn ymgiprys am wobr yr ysgol sy'n ennill y nifer fwyaf o bwyntiau. Ysgol o fro'r *Tincer*, sef Penrhyn-coch oedd yn fuddugol y llynedd, tybed a fydd modd iddyn nhw ddal eu gafael ar y darian eleni?

Nid yn un i eistedd yn ôl, mae Delyth wedi cyflwyno adran newydd i'r Ffermwyr Ifanc. Gyda'r holl gystadlaethau newydd a'r cynigion sy'n dod i law, mae'r Sioe wedi gorfod ehangu'r babell gynnyrch ar gyfer 2015.

I'r rheini sy'n dymuno copi caled o'r llawlyfr cystadlaethau, maent ar gael yn y Siop Leol a Siop Ffoto Shop, Heol y Wig, Aberystwyth; Cambrian Garages, Aberystwyth; a hefyd ar y wefan www.sioeaberystwyth.com. Gofynnir i bawb sy'n dymuno cystadlu anfon eu cynigion at Delyth erbyn 10 Mehefin 2015.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Delyth 01970 820656

Dilynwch ni!
fb.com/sioeaberystwythshow
@sioe_abershow


Delyth Morgan, Ysgrifenyddes y Babell Cynnyrch ac Umer Aslam, perchennog Siop Ffoto Shop, Aberystwyth



# Colofn Enwau Lleol

Bydd amryw o ddarllenwyr *Y Tincer* yn gyfarwydd â hanes Siôn y Gof neu John Jones, gŵr a oedd yn trigo gyda'i wraig a'i blant yng ngogledd Ceredigion tua dechrau'r ddeunawfed ganrif. Gadawodd ei deulu yn eu cartref, a mynd i ennill ei fywoliaeth yng ngwaith mwyn plwm Dylife yn sir Drefaldwyn. Ymhen amser, anghofiodd am ei deulu, a chafodd hyd i gariad newydd. A hithau heb glywed ganddo ers amser, fe gerddodd ei wraig a rhai o'i phlant (un ohonynt yn blentyn sugno) yr holl ffordd i Ddylife i edrych amdano. Rai wythnosau'n ddiweddarach, daethpwyd o hyd i gyrff y wraig a'r plant mewn hen siafft, a chafwyd Siôn yn euog o'u llofruddio. Fe'i dedfrydwyd i'w grogi ar Ben y Grocbren, Dylife, a chan ei fod yn of o ran galwedigaeth, cafodd y dasg o lunio'i haearn crogi ei hun. Aethpwyd ati i dyllu ar Ben y Grocbren yn 1938 a chafwyd hyd i'r haearn crogi a'r benglog. Bellach cânt eu cadw'n ddiogel yng nghasgliad yr Amgueddfa Werin yn San Ffagan.

Ond beth yw'r cysylltiad ag ardal *Y Tincer*?

Mae rhai fersiynau o'r chwedl yn lleoli cartref Siôn y Gof a'i deulu yng Nghwmsymlog neu Ystumtuen, ond mewn gwirionedd mae traddodiad llafar lleol yn tystio mai Ceunant Uchaf, blaen Cwmerfin, oedd aelwyd y teulu.

Yn ddiweddar, yng nghasgliad mapiau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, deuthum ar draws map llawysgrif o tua 1860 sy'n gynllun o arwyneb yr East Darren Mine (gwaith mwyn Cwmsymlog). Mae'r map yn cynnwys nifer fawr o enwau lleoedd diddorol, ond yr un dynnodd fy sylw fwya oedd cae ym mlaen Cwmsymlog (islaw llyn Pantyrebolion) o'r enw *Cae Shôn y Gof*. Byddai amryw o ofaint yn gweithio yng ngweithfeydd mwyn yr ardaloedd hyn, a thebyg bod *Siôn* neu *John* yn enw digon cyffredin, ond mi fase'n braf meddwl mai'r un person a gofféir yn enw'r cae yng Nghwmsymlog ac a grogwyd ar Ben y Grocbren, Dylife. Go brin y bydd modd gwirio'r ddamcaniaeth y naill ffordd neu'r llall fyth!

**Angharad Fychan**

**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org




Darn o'r East Darren Mine: surface plan, c. 1860, Map 9028, yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Trwy ganiatâd LLGC

## LLANDRE

### Gohebydd

Oherwydd amgylchiadau roedd Mair England am gael ei rhyddhau o fod yn ohebydd Llandre i'r Tincer. Bu Mair yn ohebydd hynod effeithiol a chydwybodol ac mae ein diolch fel papur yn fawr iddi. Diolch i Nans Morgan, Dolgwiail, Llandre, am gytuno i fod yn ohebydd newydd i Llandre. Gellir cysylltu a hi ar 01970 828487

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lleucu Roberts, ar ddod ar restr fer Llyfr y Flwyddyn gyda *Saith oes Efa.*

i Llinos Dafis, Cedrwydd, a fydd yn cael ei hurddo am ei chyfraniad i ddwyieithrwydd yng Nghymru ac i ddiwylliant dwy ardal. Bydd yn derbyn gwisg las am iddi chwarae rhan allweddol yn amryw o'n sefydliadau cenedlaethol a chyrff ar lawr gwlad. Hi oedd y tiwtor-drefnydd Cymraeg i Oedolion cyntaf, a bu'n arwain Cwrs Carlam Aberystwyth yn ogystal â hwyluso dwyieithrwydd mewn nifer o sefydliadau ar hyd a lled Ceredigion. Bu'n greiddiol yn y gwaith o sefydlu'r fenter iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth a'r mudiad CYD, ac mae hefyd yn adnabyddus fel sylfaenydd Cwmni Iaith Cyf.

## DOLAU

### Penodiad

Llongyfarchiadau i David Leggett ar gael ei benodi yn Bennaeth Cynorthwyol Cyflawniad a Wellbeing yn Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Neuadd Rhydypennau
Mai 22ain 7yh
Noson Goffi
Pwyllgor Henoed Llandre a Bowstreet

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

ytincer@googlemail.com

## GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Wendy, Malcolm, Catrin a Huw Davies, Glwysle ar farwolaeth tad Wendy, sef Dafydd Phillips, gynt o Heol Brynglas,, Aberystwyth, yng Nghartref Hafod y Waun ar Ebrill 28.

### Adref

Croeso adref i Arthur Williams, Penrhiwlas, ar ôl cyfnod yn Ysbyty Bron-glais a hefyd yng nghartref Tregerddan, Bow Street. Er cafodd ofal bendigedig yn y ddau le 'does unman debyg i gartref.

Harddwch
Siriol
Beauty

07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DEG DROS DDEG:**
y ddau ddigwyddiad nesaf yn y gyfres o 10 digwyddiad dros 10 mis i nodi dengmlwyddiant Morlan:

**Stomp Llyfrau**
**(7.30, nos Fercher, 20 Mai)**
Noson o hwyl pan fydd 10 o bobl yn ceisio perswadio'r gynulleidfa i bleidleisio dros ei ddewis ef/hi o lyfr gorau'r 10 mlynedd diwethaf. Rhestr o'r llyfrau a'r cyfranwyr ar wefan Morlan.
Arweinydd: Deian Creunant. Mynediad: £3.

**Ar Dramp yn Dre**
(6.00, nos Fercher, 17 Mehefin).
William Troughton a Gareth Lewis yn arwain taith gerdded sy'n ymweld â deg lle o ddiddordeb yn Aberystwyth.

**Manylion llawn ar wefan Morlan**:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Mawrth, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Shân James, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price a Geoff Pyne yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Eirian Reynolds.

Materion yn codi: Caban ffôn Salem - roedd y datganiad terfynol yn trosglwyddo'r caban i'r Cyngor wedi'i dderbyn. Meinciau - penderfynwyd archebu pedair mainc newydd a gwneud gwaith cynnal a chadw ar y gweddill. Parcio ger Maes Seilo - roedd Tai Ceredigion wedi cytuno i drefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Sir am y mater. Cael bin graean newydd - roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau mai'r Cyngor Cymuned fyddai'n gyfrifol am lenwi unrhyw fin graean a brynid gan y Cyngor Cymuned. O ganlyniad penderfynwyd peidio â symud ymlaen i brynu bin newydd, ond yn hytrach gofyn i'r Cyngor Sir symud y bin sydd ar waelod rhiw Pen-cwm hanner ffordd i fyny'r rhiw. Nododd Tegwyn Lewis fod cyflwr y ffordd ger Troed-y-rhiw, Capel Dewi, yn wael. Roedd Dŵr Cymru wedi rhoi wyneb newydd ar y ffordd yn ddiweddar ond doedd y clawr ddim wedi ei osod yn ôl yn iawn ar y twll archwilio (manhole).

Ariannol: roedd Mel Evans yn siomedig fod adran Pêl Droed Ieuenctid Clwb Penrhyn-coch wedi derbyn llai o arian eleni. Eglurwyd mai un cais a dderbyniwyd oddi wrth y Clwb; fodd bynnag cytunwyd i ailystyried y cais, a phenderfynwyd rhoi £150 yn ychwanegol ar gyfer yr adran ieuenctid.

Cynllunio: dim materion.

Cafwyd adroddiad gan Gwenan Price o gyfarfod a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir i drafod cartrefi henoed yn y sir. Roedd sefyllfa Bodlondeb yn fregus, ond roedd hi'n ymddangos fod dyfodol Tregerddan yn weddol ddiogel ar hyn o bryd. Disgwylid ymgynghoriad pellach cyn diwedd Ebrill.

Unrhyw fusnes arall: Nodwyd nad oedd un o'r lampau yn gweithio ar Stad Glanceulan. Cafwyd cwynion gan ardalwyr fod sbwriel oedd yn cael ei storio ger Garej Penrhyn-coch yn chwythu i'r ffordd fawr ac i rai gerddi. Adroddwyd fod twll mawr yn y ffordd ger Rhandir, Penrhyn-coch, a'i fod angen sylw ar frys. Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir am y tri mater hyn. Roedd y cwmni oedd yn glanhau'r llefydd aros bysys wedi hysbysu'r Cyngor na allai lanhau'r llefydd hyn bob mis. Cytunwyd y dylid gweld beth fyddai'r sefyllfa o'u glanhau bob dau fis.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 21 Ebrill, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Shân James, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Trefor Davies, Mel Evans, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Gwenan Price, Geoff Pyne ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Dai Rees Morgan.

Materion yn codi: Tir gyferbyn â Horeb - dim gwybodaeth bellach. Maes Seilo - cyfarfod am barcio heb ei gadarnhau hyd yma. Dim gwybodaeth bellach am y lamp ddiffygiol yn Glanceulan, y sbwriel ger Garej Penrhyn-coch na chyflwr y ffordd yn Capel Dewi.

Ariannol: Pendefynwyd codi tâl misol y Clerc i £425.25 y mis, yn unol â'r graddfeydd ar gyfer cynghorau cymuned. Roedd Eirian Reynolds wedi paratoi asesiad risg ar gyfer y Cyngor a derbyniwyd ef.

Cynllunio: dim materion.

Cyfarfodydd: Roedd Gwenan Price wedi bod mewn cyfarfod o PATRASA yn ddiweddar.Byddai pobl yn cwrdd i dacluso'r cae nos Fercher 22 Ebrill, a byddai y Parti yn y Parc yn cael ei gynnal ar 27 Mehefin.

Unrhyw faterion eraill: Nododd Eirian Reynolds fod twll yn y ffordd ger 52 Ger-y-llan, a phenderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir amdano. Penderfynwyd cael cinio blynyddol y Cyngor ar 22 Mai. Er gwybodaeth, nodwyd y byddai'r banc papuru newydd yn parhau ar dir yr Eglwys er nad oedd y Cyngor Sir bellach yn talu am y papurau a gesglid.

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

## MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon**
**Madog 2.00**
**Mai**
24
31 Terry Edwards

**Mehefin**
7
14 Roger Ellis Humphreys
21 Gweinidog
28 Terry Edwards

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Lyn Evans, Deilyn, Cefn Llwyd, sydd yn dathlu pen blwydd yn 70 oed ar y 5ed o Fehefin.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr. Tom Lloyd o Dyngraig. Roedd yn ewythr i Lyn a Dai Evans, Cefn-llwyd ac yn frawd yng nghyfraith i Defi a Gwyneira Morris, Y Fronfraith.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd ag Eirian ac Arthur Hughes, Lluest Fach wedi iddynt golli cefnder, Mr. Lewis Griffiths, Rhydyfelin.



Llongyfarchiadau i Shirley Evans, Llain y Felin, Cefn Llwyd, ar raddio yng Ngholeg Ceredigion a chael diploma lefel 3 Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant.

y tincer
COFIWCH GYSYLLTU
ytincer@gmail.com

# O'r Cynulliad – Elin Jones



O'r diwedd, mae'r ymgyrch 10-mlynedd dros wasanaeth trên gwell wedi dwyn ffrwyth. O ganol mis Mai, mae trenau ychwanegol yn rhedeg o Aberystwyth am 6.30, 8.30, 12.30 ac 18.30, sydd felly yn rhoi gwasanaeth bob awr i ni ar yr oriau brig.

Daeth hyn o ganlyniad i sawl cam pwysig. I ddechrau, roedd gwella'r lein yn flaenoriaeth i lywodraeth Cymru'n Un rhwng 2007 a 2011; yng nghyfnod Ieuan Wyn Jones fel Gweinidog Trafnidiaeth gwariwyd £13 miliwn ar uwchraddio'r cledrau er mwyn gwneud gwasanaeth amlach yn bosibiliad.

Yn fwy diweddar, bu ymgyrch dorfol , gyda chorff SARPA (y grwp defnyddwyr) a swyddogion TRACC (consortiwm trafnidiaeth y canolbarth) yn ganolog. Yn y diwedd casglwyd dros 6000 o ymatebion i holiadur, a pherswadiwyd Gweinidog Trafnidiaeth presennol Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau i'r gwasanaeth.

Rwy'n hyderus y bydd y gwell gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Lle bynnag fo buddsoddiadadau mewn rheilffyrdd, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o deithwyr. Mae hyn yn gyfle gwych i wneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth, ac hefyd i bwyso am welliannau eraill fel gorsaf Bow Street.

Daeth cam ymlaen o ran iechyd hefyd. Cyfarfu'r bwrdd cydweithredol newydd sy'n cynllunio gwasanaethau yn y canolbarth, a gosodwyd agenda heriol gan y cadeiryddion – Jack Evershed a Dr. Ruth Hall. Edrychaf ymlaen yn fawr at weld eu argymhellion ar agweddau hollbwysig fel gwasanaethau mamolaeth, gofal y galon a llawdriniaeth, iechyd meddwl, yn ogystal â recriwtio mwy o feddygon teulu. Mae cyfle gwirioneddol nawr i ni greu atebion neilltuol i Gymru wledig, yn hytrach na gorfod dioddef toriadau a chanoli.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

MYNACH HANDYMAN & GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau** a **Garddio** hefyd
**Gwasanaeth Cynnal** a **Chadw**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion: 07792457816 . 01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

y tincer

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

# llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.**
**Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**




Aelodau o Heol y March - y côr buddugol yng nghystadleuaeth Côr Cymru - yn rhedeg wedi eu cyffroi wedi cyhoeddi enw'r côr buddugol.

## GŴYL CERDD DANT Llŷn ac Eifionydd 2016.

Annwyl Gyfeillion,
Bydd yr Ŵyl Cerdd Dant yn dychwelyd i Bwllheli yn 2016, ac yn cael ei chynnal yn adeilad Academi Hwylio Cymru, sydd yn adeilad newydd sbon, nepell o draeth Glan Don yn y dref, sef Plas Heli.

Y mae cynnwrf ac edrych ymlaen yn lleol am gael cynnal yr Wŷl unwaith eto yn ardal Llŷn ac Eifionydd, a'r pwyllgorau eisoes wedi dechrau cyfarfod i wneud y paratoadau.
Un o'r tasgau cychwynnol yw chwilio am nawdd i'r cystadlaethau, dros ddeg ar hugain ohonynt i gyd.

Mae gwobrau ar gael yn yr adrannau canlynol:

- Cerdd Dant
- Y Delyn
- Llefaru (i gyfeiliant unrhyw offeryn neu gyfuniad o offerynnau)
- Canu Gwerin
- Dawnsio Gwerin

Os ydych yn dymuno rhoi gwobr ariannol yn un o gystadlaethau yr Ŵyl, yna byddai'r ysgrifenyddion yn falch iawn o glywed gennych.

Gellir cynnig gwobr/gwobrau yn dechrau am gyn lleied a £15 ar ran unigolyn, teulu, cymdeithas, neu er cof am rywun arbennig, a bydd y manylion yn ymddangos yn Rhaglen y Dydd.

Mae cyfrannu gwobr yn ffordd effeithiol iawn o gefnogi'r Ŵyl, a gall unrhyw un sy'n talu Treth Incwm y Deyrnas Unedig ychwanegu at ei gyfraniad trwy lenwi ffurflen Rhodd Cymorth. Gyda'r Rhodd Cymorth am bob £1 a gyfrennir, mae'r Ŵyl yn hawlio 25c yn ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Pe dymunech roi gwobr, neu am fwy o wybodaeth yn gyffredinol, yna cysylltwch ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Gwaith cyn diwedd mis Hydref os gwelwch yn dda- Gwyn a Rhian Parry Williams, Rhos Eithin, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd.LL53 6TF. 01766 810717 neu e bost: gwynarhian@btinternet.com
Diolch yn fawr, ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Lŷn ac Eifionydd yn 2016.

Yn gywir iawn,
Ken Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a John Eifion, Trefnydd yr Ŵyl Cerdd Dant.

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Babi Miss Edwards

Newyddion da gan Mrs Edwards. O'r diwedd mae'r babi wedi cyrraedd! Cafodd hi fachgen bach o'r enw Joshua Lodwick Davies oedd yn pwyso 7 pwys a 14oz. Daeth Miss Edwards i weld ni gyd yn yr ysgol Dydd Gwener diwethaf. Roedd y plant, wrth eu bodd i weld hi, a chael cwtsh gyda'r babi.

### RNLI

Diolch yn fawr iawn i Sam a Meg o'r criw RNLI a ddaeth i'r ysgol er mwyn cynnal gwasanaeth yn yr ysgol. Buom yn trafod pwysigrwydd diogelwch ar y traeth, yn enwedig yn ystod Tymor yr Haf. Roedd y plant wedi dysgu am liwiau'r gwahanol faneri a beth roedd pob un yn golygu. Hefyd buom yn trafod y gwahanol beryglon a fyddai'n gallu digwydd ar lan y môr. Trosglwyddwyd nifer o negeseuon pwysig ac fe atebwyd nifer o gwestiynau'n dda gan y plant.

### Cyngerdd i'r henoed

Ar brynhawn Dydd Iau, Ebrill 30ain, buom ni gyd lawr i neuadd y pentref i berfformio caneuon i aelodau Cymdeithas yr Henoed. Diolch yn fawr am y gwahoddiad ac am y diod a'r bisgedi hyfryd.

### Cyfnod Sylfaen

Thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw 'Ar lan y Môr'. Aeth dosbarth Miss Davies i lawr i'r traeth un prynhawn i ddarganfod pa fath o bethau sydd ar lan y môr yn y Borth. Cwrddon nhw gyda disgyblion o Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Tal-y-bont hefyd.






Ymunwch â PHANEL CYFRYNGAU CYMRU
Byddwn yn gofyn i chi lenwi holiadur am eich gweithgarwch yn ystod yr wythnos flaenorol, gan gynnwys:

- Beth wnaethoch chi ei wylio ar S4C
- Sut wnaethoch chi wylio rhaglenni ar-lein



Byddwch yn derbyn credyd am bob holiadur wythnosol a lenwch.
Gallwch ddewis derbyn y credydau fel...

Talebau Siopa



Cyfraniad Elusennol



Grŵp Cymunedol



www.panelcyfryngau.cymru

Panel Cyfryngau Cymru | Media Panel Wales



inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200



ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627



y tincer



James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Ysgol Penrhyn-coch

### Trawsgwlad yr Urdd Rhanbarth Ceredigion

Teithiodd rhai o ddisgyblion yr ysgol i lawr i Glwb Rygbi Aberaeron i gymryd rhan yn Nhrawsgwlad yr Urdd Rhanbarth Ceredigion. Cynrychiolwyd yr Ysgol gan bump o ddisgyblion yr ysgol eleni, sef Llion Edwards, Clay Nash, Eddie Rhodes, Cai Williams a Seren Bedder. Da iawn i'r pump ohonoch am ddangos brwdfrydedd a nerth i redeg am bellter hir! Diolch hefyd i'r rhieni a gludodd y disgyblion i lawr i Aberaeron.

### Pêl droed yr Urdd

Unwaith yn rhagor eleni, gwelwyd tîmau yr ysgol yn cymryd rhan yn Nhwrnament Pêl-droed y Sir. Da iawn i'r tîm merched a bechgyn a gymerodd ran. Er chwarae yn galed ac ennill nifer o gêmau, ni lwyddwyd i ennill drwodd i'r rowndiau terfynol.

### Diwrnod hwyl aml sgiliau

Tro disgyblion blwyddyn 3 a 4 oedd cymryd rhan a mwynhau yng ngweithgareddau hwyl aml-sgiliau yr ardal. Cafwyd cyfle i fwynhau nifer o weithgareddau –a gynhaliwyd yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau ac yn cymryd rhan llawn yn y bore. Diolch i'r trefnwyr am gynnal bore buddiol i'r disgyblion.

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Cafwyd noson dda o gystadlu eleni eto wrth i nifer o blant o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 gystadlu yn erbyn ei gilydd! Gwrandawyd ar nifer o blant yn adrodd "Teigr yn y gegin" ac rwy'n siwr bod "Cân yr Eliffant" yn atsain trwy feddyliau pawb erbyn diwedd y noson. Unwaith yn rhagor eleni, cafwyd y fraint o gynnal seremoni Tlws yr Ifanc. Diolch i Arwen, Elisa, Siôn, Bethan a Siân am fod mor barod i gymryd rhan yn y seremoni. Llongyfarchiadau i Meleri Pryse ar ei gorchest. Diolch i Bwyllgor yr Eisteddfod am y trefniadau.

### Cyfnod Sylfaen

Bu Mari, Annie May, Tomos a Steffan yn cymryd rhan ar raglen Tref a Tryst –bu'r pedwar ohonyn nhw yn ffilmio draw yn Ysgol Tal-y-bont a chafon nhw dipyn o hwyl.Gwyliwch amdanyn nhw ar y rhaglen Cyw yn fuan!

### Achubwyr bywyd-RNLI

Mwynheuodd y plant gyflwyniad gan ddau o achubwyr bywyd lleol wrth iddyn nhw esbonio pwrpas yr offer a'r fflagiau gwahanol a welwn ar draethau ar hyd yr arfordir. Roedd gwisgo eu dillad hefyd yn dipyn o hwyl.

### Penodi yn Is Gadeirydd

Llongyfarchiadau i un o Lywodraethwyr yr Ysgol, sef y Cynghorwr Dai Mason ar gael ei ethol yn Is gaderiydd i Gyngor Sir Ceredigion am y flwyddyn 2015-16. Fel ysgol, rydym yn falch iawn drostoch. Pob hwyl yn eich swydd newydd.



### Apêl Nepal

Yn dilyn y newyddion trist am ddaeargryn yn Nepal, trefnwyd prynhawn coffi gyda phlant ein cyngor ysgol i godi arian i'r apêl. Agorwyd y prynhawn coffi i aelodau y gymuned a chafwyd stondin gacennau a raffl yn ystod y prynhawn. Derbyniodd y disgyblion gyfle i wisgo dillad eu hunain yn ystod y diwrnod gan roi cyfraniad am y fraint. Er y tywydd gwael, daeth tyrfa arbennig o dda-yn rieni, aelodau'r gymuned a ffrindiau yr ysgol, i gefnogi y prynhawn. Ar ddiwedd y dydd, llwyddwyd i godi £545. Mae hyn yn swm aruthrol a byddwn yn awr yn trefnu i gyflwyno'r arian i'r Apel.

Diolch i'r rhieni, staff a ffrindiau'r ysgol am baratoi y cacennau i'r stondin ac am y gwobrau raffl. Cafwyd prynhawn hwylus iawn.









# Ysgol Pen-llwyn

### Cwrs Aml Sgiliau

Ar ddydd Mercher 22ain Mawrth cymerodd plant Dosbarth 2 ran yng Ngŵyl Aml Sgiliau Ceredigion. Cynhaliwyd yr ŵyl ym Mhrifysgol Aberystwyth ar yr 'Astro turf'. Cafwyd cyfle i ddysgu sgiliau newydd megis golf, athletau, pêl droed, rygbi a llawer mwy. Mwynheuodd y plant pêl fasged yn fawr gan ddysgu nifer fawr o sgiliau newydd. Diolch yn fawr i'r holl hyfforddwyr am fore cyffrous!

### Achubwyr Bywydau

Gyda'r tywydd poeth o'n blaenau rwy'n siŵr fod pawb yn edrych ymlaen at dreulio ein penwythnosau ar lan y môr. Oblegid hynny cafwyd ymwelwyr arbennig i'r Ysgol sef achubwyr Bywydau - 'lifeguards'. Dysgodd y plant lawer am ddiogelwch ar lan y môr. Hoffwn ddiolch i Sam a Meg am ddod i siarad gyda ni.

### Iwerddon

Fel rhan o'n prosiect Comenius aeth Llŷr Evans, Morgan Jac, Crys Thomas a Mia Howells i Malahide, Iwerddon gydag aelodau o staff. Roedd plant o'n hysgolion partneriaeth yno hefyd o Sweden, Denmarc a Ffrainc. Roedd yn wythnos brysur a chyffrous lle cafodd y plant a'r staff wythnos llawn gweithgareddau amrywiol. Cafwyd cyfle i brofi diwylliant Gwyddeleg ynghyd â hanes yr ardal. Uchafbwyntiau'r wythnos oedd chwarae hurling, dawnsio Gwyddeleg a'r daith Llychlynwyr trwy Ddulyn. Mae diwedd ein cywaith yn agosáu ond mae'r plant yr ysgol gyfan wedi elwa o'r profiadau a'r cysylltiadau.

### Mrs Hershel

Thema dosbarth 1 yw tir ar y gorwel ac er mwyn dechrau'r thema cafwyd ymweliad gan fôr-leidr Rosa. Unwaith eto, rydym yn





ffodus iawn o gefnogaeth Louise Hershel. Cafodd y plant gyfle i wrando ar straeon difyr ar y thema chwarae gêmau. Cafodd pob plentyn wasgod i ymuno ar long y môr-leidr Rosa ac roedd ymarfer siarad fel môr-leidr yn ddoniol tu hwnt! Diolch yn fawr iawn Louise!

### Clwb hwyl hwyr

Yn ystod y tymhorau diwethaf mae Aeronwy Lewis, Heulwen Lewis a'r Parchg Derrick Adams wedi bod yn brysur yn cynnal Clwb Hwyl Hwyr o fewn yr Ysgol. Mae'r plant wedi mwynhau ymgymryd mewn nifer o weithgareddau amrywiol a diddorol yn ystod y sesiynau. Cafwyd parti mawr ar ddiwedd sesiwn olaf y flwyddyn. Hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i Aeronwy Lewis, Heulwen Lewis a Derrick Adams am gynnal y sesiynau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi yn ôl!

### Apêl Daeargryn Nepal

Wedi'r trychineb ddigwyddodd yn Nepal penderfynodd y Cyngor Ysgol drefnu cyfarfod brys i feddwl am ffordd gall yr Ysgol helpu. Cafwyd syniad o greu stondin gacennau diwedd yr wythnos. Wedi ôl paratoi yn ystod y dydd cafwyd stondin llawn o gacennau blasus. Diolch enfawr i'r rhai gyfrannodd gacennau hyfryd. Dechreuodd y gwerthu am 3 o'r gloch ac o fewn yr awr gwerthodd y cacennau i gyd! Codwyd swm sylweddol er mwyn yr achos Apêl Daeargryn Nepal. Diolch yn fawr i bawb am ddod a chyfrannu at achos pwysig.

### Trawsgwlad Ceredigion

Ar ddydd Gwener y cyntaf o Fai cynrychiolodd Llŷr Evans a Carys Thomas Cylch Aberystwyth o fewn trawsgwlad Ceredigion. Da iawn i'r ddau am gynrychioli'r Ysgol ac am redeg yn arbennig o dda.

### Croeso mawr!

Mae'n bleser llwyr croesawu'r plant newydd i'r Ysgol y Tymor yma. Croeso enfawr i aelodau newydd yr Ysgol - Ellie White, Ianto Hoskins ac Iestyn Jones!

### Penllwyn ar twitter

Cofiwch i ddilyn Ysgol Penllwyn ar twitter @ysgolpenllwyn.







# Ysgol Rhydypennau

### Gwaith Elusennol

Yn dilyn trafodaeth am y daeargryn ofnadwy oedd wedi taro gwlad Nepal yn ddiweddar penderfynodd Blwyddyn Dau gynnal stondin gacennau er mwyn codi arian at yr Apêl.
Coginion nhw dros 170 o gacennau bach a'u haddurno ac ar fore Gwener cynhaliwyd stondin gacennau yn neuadd yr Ysgol. Cafwyd ymateb ardderchog i'r apêl a chodwyd dros £220. Hoffai Blwyddyn 2 ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Rydych chi'n wych!

### Chwaraeon
### Pêl rwyd a Phêl-droed y cylch

Yn ddiweddar cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed cylch Aberystwyth. Chwaraeodd bechgyn y tîm pêl-droed yn wych gan guro timoedd da iawn i gyrraedd y rownd gyn-derfynol; yna, gyda'r sgôr yn gyfartal ar ddiwedd y gêm bu'n rhaid chwarae amser ychwanegol, ond colli oedd yr hanes o un gôl i ddim. Hen dro!

Brwydrodd merched y tîm pêl-rwyd yn frwdfrydig iawn yn ystod y prynhawn, ond methu wnaethant i fynd ymhellach na gêmau'r grŵp.

### Pêl droed Yr Urdd

Ar y 16eg o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf. Er i'r merched frwydro yn galed, methu wnaethant o drwch blewyn i fynd ymlaen i'r rowndiau cyn-derfynol.

Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan guro nifer o dimoedd da iawn. Ond oherwydd gwahaniaeth goliau methu wnaethant i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

### Trawsgwlad

Ar y 1af o Fai bu rhai o blant yr ysgol yn brwydro yn erbyn holl ysgolion Ceredigion yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir yng Nglwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y tri cyntaf; Griff Lewis Bl 6-5ed a Lleucu Siôn Bl 3-6ed. Ardderchog!

Diolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am gyfrannu mor hael a galluogi'r ysgol i brynu 70 o grysau traws gwlad newydd.

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad Fis Mai:-

1) Jon King, Elgar - £25
2) Rosalind Williams. Caerfyrddin - £15
3) Isla Griffiths. Tal-y-bont - £10

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*



Apêl Nepal-stondin gacennau.




Tîm Pêl-droed Bechgyn yr Ysgol



Tîm Pêl-droed Merched yr Ysgol



Lowri Powell (Cymdeithas Rhieni ac Athrawon) yn cyflwyno'r crysau Trawsgwlad.

# Tasg y Tincer

Diolch – Leah Lockyer, Penrhyn-coch; Alexis Phillips, Bow Street' Cari Jenkins, Penrhyn-coch; Elin Pierce Williams, Bow Street; Megan Hughes, Tal-y-bont; Owen Jac Roberts, Rhydyfelin; Abigail Evans, Penrhyn-coch a Tomos o Gapel Bangor – am anfon eich lluniau ataf. Am luniau hyfryd! Roedd rhaid i mi gael tri ffrind i'm helpu i ddewis enillydd, ac roedd y tri'n hoffi'r lluniau'n fawr, yn enwedig rhai Elin, Tomos, Cari a Leah, ond ti, **Cari**, sy'n mynd â'r wobr y tro hwn. Da iawn, wir!


Mae yna ddigwyddiad pwysig iawn ar fin dechrau yn ardal Caerffili. Ie, dyna chi – Eisteddfod yr Urdd. Bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal ar dir plasty Llancaiach Fawr. Hen, hen blasty yw Llancaiach Fawr – codwyd y tŷ dros 450 o flynyddoedd yn ôl – a dyn o'r enw Dafydd ap Richard fu'n byw yn y plasty yr adeg honno. Mae gan y tŷ hanes diddorol dros ben; cofiwch edrych ar Gŵgl am yr hanes, ac mae gwefan Gymraeg ar gael. Mae sôn bod ysbrydion yn crwydro drwy'r ystafelloedd ... mae pobl wedi clywed sŵn traed a gweld dodrefn yn symud, a hynny wedi i'r ymwelwyr adael. Wwww! Cofiwch fynd yno am dro.

Pob lwc i bawb o ardal *Y Tincer* fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod, a phob hwyl i bawb fydd yn ymweld â hi. Y mis hwn, beth am liwio llun Sali Mali a Jaci Soch yn cael tro ar y llithren? Bydd 'na lithren, wal ddringo, beiciau cwad a phob math o weithgareddau ar y maes yn Llancaiach – yn ogystal â stondinau o bob lliw a llun, a'r pafiliwn fawr, wrth gwrs. Joiwch!

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Mehefin. Ta ta tan toc, a mwynhewch eich gwyliau hanner tymor!



Cari Jenkins



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 379 | MAI 2015